

# 20. Nadolig y Byd

Byddai'n gymorth i'r plant pe gellid trefnu 'tableau' syml yn ganolbwynt i'w haddoliad. Cyn dechrau'r gwasanaeth, gofynner i'r gynulleidfa chwilio am yr emyn 'Wele cawsom y Meseia' fel na fydd unrhyw saib. Gofynner iddyn nhw hefyd uno'n frwd yng nghytgan yr emyn ola.

Darlleniad: 'Baled y Pedwar Brenin', *Cerddi Cynan*.

Cerddoriaeth organ: 'Simffoni Pastoral' o'r 'Meseia' gan Handel neu 'Dawel Nos'

Arweinydd: Y bobl a rodiasant mewn tywyllwch a welsant oleuni mawr; y rhai sydd yn aros yn nhir cysgod angau y llewyrchodd goleuni arnynt. Canys bachgen a aned i ni, Mab a roddwyd i ni, a bydd y llywodraeth ar ei ysgwydd ef a gelwir ei enw ef:

Rhyfeddol, Cynghorwr, y Duw cadarn,  
Tad tragwyddoldeb, Tywysog tangnefedd.

Carol gynulleidfaol: 'Wele cawsom y Meseia', *Caneuon Ffydd*.

[*Dyblu'r llinellau olaf*]

'Frodyr dewch, llawenhewch,  
Diolchwch iddo, byth na thewch.'

[*Daw'r plant i mewn dan ganu*] 'Pa mor bell yw Bethl'em Dref?', *Clychau'r Nadolig*.

[*Caner y tri phennill cyntaf ac ar y geiriau canlynol, penlinia'r plant ger y preseb*]

'Er na feddwn roddion drud  
I'w rhoi i Ti,  
Rhown ein calon fach yn llwyr,  
O! cymer hi.'

Arweinydd: Gawn ni wrando ar Luc yn adrodd rhan o hanes y geni.

Parti llefaru: Luc 2:8-14

[*Y plant i gyd i godi ar eu traed ac uno â nhw yn adnod 14*]

'Gogoniant yn y goruchaf i Dduw ac ar y ddaear tangnefedd,  
i ddynton ewyllys da.'

Parti canu: 'Pwy ddaeth at Mair?', *Glas Glas Blaned*.

Arweinydd: Yn Efengyl Mathew, cawn hanes y seren lachar a arweiniodd y doethion i'r man lle gorweddai'r mab bychan. Ac un o'r hanesion prydfferthaf yn ein llenyddiaeth ni yw'r hanes a adroddir ym 'Maled y Pedwar Brenin' gan Cynan.

[*Yr Arweinydd i adrodd stori'r faled yn syml a chryno, gan orffen gydag adrodd y pennill ola*]

Mawlgan: Bendigedig fyddo'r Iesu  
Yr Hwn sydd yn ein caru,  
Ein galw o'r byd a'n prynu,  
Ac yn ei waed ein golchi,  
Yn eiddo iddo'i Hun.

Bendigedig fyddo'r Iesu  
Caiff pawb sydd ynddo'n credu  
Drwy fedydd, ei gydggladdu  
Ag ef, a'i gydgfyfodi  
Mewn bywyd byth yn un.

[*Y plant i gyd a'r gynulleidfa i uno yn y gytgan*]

Haleliwia, Haleliwia!  
Moliant iddo byth, Amen.

*Caneuon Ffydd*

**DIWEDD**